# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Dydd Gwener, 17 Chwefror 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, S.L. Davies, S. Matthews, W.R.A. Davies, H.I. Jones, D. Tomos, G.B. Thomas and M.J.A. Lewis (In place of J.K. Howell)

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr L.D. Evans, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Tai

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
W. Walters, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)
R. Staines, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
I. Jones, Pennaeth Hamdden
H. Morgan, Rhelowr Datblygu Economaidd
J. Edwards, Y Pennaeth Cynllunio Integredig
S. Walters, Rheolwr Datblygu Economaidd
A. Thomas, Prif Gyfrifydd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00  - 10.35 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D. Cundy, T. Devichand, J.K. Howell a H.B Shepardson.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. DECLARATION OF PROHIBITED PARTY WHIPS

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

## 5. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Rhoddwyd rhestr i'r Pwyllgor o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn y cyfarfod oedd i'w gynnal ar 30 Mawrth, 2017.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 6. ADDRODIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2016/17

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiadau Monitro ynghylch Cyllideb Refeniw a Chyllideb Gyfalaf 2016/17 ar gyfer y Gwasanaethau Tai, Adfywio, Cynllunio a

Hamdden am y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2016. Nododd y rhagwelid gorwariant o £122k yn y gyllideb refeniw, tanwariant o £9.297m yn y gyllideb gyfalaf a gorwariant o £392k yn y Cyfrif Refeniw Tai.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y gorwariant rhagamcanol o £56k mewn perthynas â chyfleuster Un Sir Gâr yn Llanelli, a hynny oherwydd bod yr incwm yn llai na'r disgwyl, cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod swyddogion yn ystyried ffyrdd o gynyddu'r ffrwd incwm.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y sefyllfa bresennol o ran cynllun maes parcio Talacharn, cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod oedi oherwydd bod angen cynnal rhagor o brofion halogi pridd. Cadarnhawyd y byddai'r cynllun yn cael ei roi ar waith, ar hyn o bryd, yn unol â'r gyllideb ac y byddai cronfa wrth gefn y cynllun yn talu am unrhyw gostau ychwanegol.
- Cyfeiriwyd at yr ymarfer ymgynghori ynghylch y gyllideb refeniw a gynhaliwyd yn ddiweddar a'r effaith bosibl ar ddarparu gwasanaethau yng nghyfleusterau hamdden y Cyngor. Gofynnwyd am eglurhad hefyd ynghylch a oedd y tanwariant cyfalaf presennol i'w briodoli i ddiffyg buddsoddiad yn y gwasanaethau hynny i ddenu defnyddwyr gwasanaeth ychwanegol.

  Dywedodd y Pennaeth Hamdden fod y tanwariant presennol o £2,316m o ran y rhaglen cyfalaf hamdden i'w briodoli i lithriant, a bod rhai cynlluniau heb ddechrau eto, a dywedodd y byddai unrhyw ddyraniad nas gwariwyd yn cael ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mewn perthynas â'r gorwariant refeniw, roedd hynny i'w briodoli'n rhannol i ostyngiad yn yr incwm ym mhrif ganolfannau hamdden yr Awdurdod yng Nghaerfyrddin a Llanelli tra oedd gwaith cyfalaf yn cael ei wneud i wella'r cyfleusterau hynny. Mewn perthynas â chyfleusterau hamdden llai yr Awdurdod, y gobaith oedd y gallai Canolfan Hamdden Sanclêr aros ar agor, gan fuddsoddi mewn cyfleusterau eraill wrth i gyllid ddod ar gael.

  **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr adroddiad ynghylch Monitro Cyllideb Refeniw a Chyllideb Gyfalaf 2016/17 yn cael ei dderbyn.**

## 7. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD CYNLLUN GWELLA 2016/17 CWARTER 3 - 1AF EBRILL I'R 31AIN RHAGFYR, 2016

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Monitro Perfformiad Cynllun Gwella 2016/17 - Chwarter 3 am y cyfnod 1 Ebrill 2016 tan 31 Rhagfyr 2016.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch Cam Gweithredu 12153 a'r cyfeiriad at anawsterau recriwtio staff addas, cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod swyddog wedi'i benodi'n ddiweddar a bod y broblem bellach wedi cael ei datrys.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch Cam Gweithredu 12173, cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol pan fyddai’r Cyngor yn rhoi grantiau i sefydliadau allanol y byddai angen i ymgeiswyr llwyddiannus sicrhau bod Polisi Iaith Gymraeg ar waith cyn derbyn unrhyw grant, a hynny fel rhan o bolisi i hyrwyddo defnydd y Gymraeg.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 8. MESURAU PERFFORMIAD Y GWASANAETHAU TAI

Yn dilyn cofnod 7 o'i gyfarfod ar 20 Gorffennaf 2016 cafodd y Pwyllgor adroddiad ynghylch Fframwaith Perfformiad y Gwasanaethau Tai oedd yn rhoi enghreifftiau o wybodaeth perfformiad a sut roedd hynny'n cefnogi cyfeiriad strategol a phrif amcanion y Cyngor. Nodwyd er bod yr adroddiad yn rhoi dwy enghraifft o fesur perfformiad mewn perthynas ag Astudiaeth Effaith ar Iechyd (Atodiad 1) a Chyngor/Dewisiadau Tai (Atodiad 2), fod Is-adran y Gwasanaethau Tai yn casglu dros 150 darn o ddata yn rheolaidd a oedd yn cynnwys:-

- Adroddiadau ystadegol a dangosyddion perfformiad cenedlaethol i Lywodraeth Cymru;
- Prif amcanion perfformiad sy'n cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol;
- Dangosyddion Perfformiad sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Gwella a'r Strategaeth Integredig;
- Data at ddibenion craffu gwleidyddol;
- Data i reoli'r busnes;
- Data i asesu cydymffurfiaeth gyfreithiol e.e. Digartrefedd a Safonau Tai.

Cadarnhaodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd, wrth gyfeirio at yr enghreifftiau a nodwyd yn atodiadau'r adroddiad, y gellid darparu data perfformiad mwy manwl ynghylch unrhyw faes penodol o weithgarwch yr Is-adran, petai'r Pwyllgor yn dymuno hynny.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i ddatganiad y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd uchod, mynegwyd barn y dylid cyflwyno data perfformiad mwy manwl i'r Pwyllgor ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol, darparu cyngor cywir ac amserol ynghylch tai, a digartrefedd.
- Mewn ymateb i gais am eglurhad ynghylch y data a ddarparwyd yn Atodiad 2, cadarnhaodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd y byddai'n edrych ar hwn a rhoi manylion i'r Aelodau ynghylch y cwymp a gofnodwyd o ran bodlonrwydd cwsmeriaid yn ystod y cyfnod Ionawr - Mawrth 2016.
- Cyfeiriodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd at effaith eang y gwelliannau a wnaed i stoc tai'r Cyngor. Roedd y rheiny'n cynnwys gostyngiad yn nifer y ceisiadau gan denantiaid am wasanaethau, rhoi sylw i dlodi tanwydd a gallu tenantiaid i dalu biliau cyfleustodau rheolaidd megis trydan, dŵr a nwy a hefyd astudiaethau a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe mewn perthynas â gwerth y gwelliannau i'r Gwasanaeth Iechyd o ran llai o alw dros y cyfnod 2009-2016.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**8.1 Derbyn yr adroddiad**

**8.2 Bod adroddiadau'n cael eu cyflwyno yn ystod cyfarfodydd yn y dyfodol ynghylch Data Perfformiad sydd wedi'i gasglu gan Is-adran y Gwasanaethau Tai mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, darparu cyngor cywir ac amserol ynghylch tai, a digartrefedd.**

## 9. EGLURHAD AM BEIDIO A CHYFLWYNO ADRODDIADAU CRAFFU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr eglurhad a roddwyd ynghylch peidio â chyflwyno adroddiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad nad oedd wedi'i gyflwyno.**

## 10. DIWEDDARAF AM WEITHREDIADAU AC ATGYFEIRIADAU'R PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a fanylai ar y cynnydd o ran y camau gweithredu, y ceisiadau, neu'r atgyfeiriadau oedd wedi deillio o'i gyfarfodydd blaenorol:

Trafodwyd y mater canlynol wrth ystyried yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y Grŵp Gorchwyl a Gorffen arfaethedig mewn perthynas ag adeiladau gwag mawr sy'n anharddu canol trefi, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y mater yn cael sylw gan Dasglu Rhydaman i ddechrau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 11. LLOFNODI YN GOFNODAU CYWIR, COFNODION Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR Y 20FED IONAWR 2017

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 20 Ionawr 2017 gan eu bod yn gywir.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**